# Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy

# Adroddiad Interim 2002 – 2018

Awdur: Dave Charlesworth – Rheolwr Prosiect Pysgodfeydd Cynaliadwy (De-orllewin)

## Cefndir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian i gyflawni gwaith a gynlluniwyd i gyfrannu at sicrhau pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy yng Nghymru.

Yn 2001, cynigiodd Asiantaeth yr Amgylchedd a fu y pryd hwnnw (Rhanbarth Cymru) becyn o waith 'Buddsoddi mewn Pysgodfeydd'. Cafodd y pecyn hwn ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i lansio yn 2002–03. Dyfarnwyd dyraniad ychwanegol ond dros dro o gyllid cymorth grant (£800k y flwyddyn) ar gyfer cyfnod cychwynnol o dair blynedd, a chafodd hwn ei droi'n gyllid craidd parhaus gan Lywodraeth Cymru nes ymlaen.

Nod y rhaglen fu cynyddu'r manteision amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o bysgodfeydd yng Nghymru cymaint ag y bo modd – heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y rhaglen yn un o'r gyntaf o'i math, yn cyflawni'r hyn y cyfeirir ato heddiw fel Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan fod llawer o'r buddsoddiadau yn sicrhau manteision ar gyfer yr amgylchedd dŵr yn gyffredinol ac nid ar gyfer pysgod yn unig. Heddiw rydym yn cydnabod bod buddsoddi mewn pysgodfeydd cynaliadwy hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targedau a osodwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac ysgogwyr statudol eraill.


Ers ei ddechrau, mae'r cyllid penodol wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau a chyflawni nifer o brosiectau mawr a ariannwyd gan yr UE, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Prosiect Castell-nedd Amcan 1 | **£244k** |
| Pysgota Cymru | **£5.6 miliwn** |
| FIFG (Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd) | **£2.6 miliwn** |
| Eogiaid at Yfory (Cronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd) | **£2.2 miliwn** |
| Pysgota Gwyllt Cymru | **£2.6 miliwn** |

Gwnaeth y prosiectau strategol hyn alluogi llawer o fuddsoddi mewn pysgodfeydd ledled Cymru, gan gynnwys adeiladu llwybrau pysgod a hwylusfeydd ymfudo, gwelliannau i gynefinoedd torlannol ac ansawdd dŵr, a buddsoddiadau mewn seilwaith genweirio, marchnata a chyfranogi mewn genweirio.

### Deng mlynedd gyntaf y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy

Ar ôl deng mlynedd gychwynnol y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy, comisiynwyd adolygiad i gofnodi'r holl waith a wnaed yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu mewn cronfa ddata ddaearyddol a gellir gweld rhai ffigurau pennawd isod:




***Cyflawni'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy cyn 2011***

### Cyflawni ers 2011

Mae cyflawni ers 2011 wedi parhau gyda chwblhau'r prosiect S4T (Eogiaid at Yfory), gwaith partneriaeth parhaus gyda sefydliadau trydydd sector, a chyflawni uniongyrchol gyda'r cyllid craidd sydd ar gael. Mae cyllid bellach yn cynnwys mesurau lliniaru amgen yn y dalgylchoedd hynny yng Nghymru a oedd yn cael eu stocio â salmonidau ymfudol yn flaenorol.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n diweddaru offeryn adrodd system gwybodaeth ddaearyddol ar gyfer y gronfa ddata ddaearyddol i gyflwyno’r manteision cyffredinol a gafwyd. Mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ond gellir gweld ffigurau dros dro fesul ardal nes ymlaen yn yr adroddiad interim hwn.

## Enghreifftiau o gynlluniau llwybrau pysgod



*Datrysiad baffl cost isel yng nghored fedryddu Resolfen – Afon Nedd 2017*



*Llwybr pysgod Larinier dwy ran arloesol – Afon Afan 2015*

| **Cyflawni'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy 2011 – 2018** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal** | **Blwyddyn** | **Cynlluniau Llwybrau Pysgod** | **Cynlluniau Cynefinoedd** | **Cynlluniau Ansawdd Dŵr** | **Seilwaith Genweirio** | **Cyfranogiad mewn Genweirio** | **Cyfanswm y Gwariant (gan gynnwys cyllid yr UE / gwariant cyfalaf)** |
| De-orllewin | 2011–12 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 | 151,410 |
| De-orllewin | 2012–13 | 10 | 5 | 0 | 4 | 1 | 357,457 |
| De-orllewin | 2013–14 | 10 | 3 | 0 | 3 | 1 | 170,266 |
| De-orllewin | 2014–15 | 12 | 2 | 0 | 6 | 1 | 143,964 |
| De-orllewin | 2015–16 | 6 | 3 | 0 | 2 | 1 | 140,964 |
| De-orllewin | 2016–17 | 7 | 2 | 0 | 0 | 2 | 50,065 |
| De-orllewin | 2017–18 | 4 | 2 | 0 | 4 | 1 | 138,139 |
| De-orllewin | 2018–19 | 7 | 0 | 0 | 2 | 1 | 57,169 |
| De-ddwyrain | 2011–12 | 5 | 8 | 0 | 0 | 3 | 314,000 |
| De-ddwyrain | 2012–13 | 5 | 7 | 0 | 2 | 0 | 557,000 |
| De-ddwyrain | 2013–14 | 5 | 0 | 0 | 3 | 0 | 341,000 |
| De-ddwyrain | 2014–15 | 31 | 0 | 0 | 0 | 0 | 265,250 |
| De-ddwyrain | 2015–16 | 13 | 9 | 0 | 3 | 1 | 73,800 |
| De-ddwyrain | 2016–17 | 9 | 5 | 0 | 4 | 1 | 61,671 |
| De-ddwyrain | 2017–18 | 12 | 7 | 0 | 3 | 3 | 94,351 |
| De-ddwyrain | 2018–19 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 |
| Gogledd | 2011–12 | 1 | 11 | 0 | 0 | 0 | 45,582 |
| Gogledd | 2012–13 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 57,420 |
| Gogledd | 2013–14 | 1 | 6 | 0 | 0 | 0 | 210,635 |
| Gogledd | 2014–15 | 7 | 4 | 0 | 1 | 2 | 68,769 |
| Gogledd | 2015–16 | 3 | 6 | 0 | 1 | 0 | 92,872 |
| Gogledd | 2016–17 | 2 | 6 | 0 | 0 | 0 | 28,575 |
| Gogledd | 2017–18 | 4 | 11 | 0 | 1 | 0 | 107,383 |
| Gogledd | 2018–19 | 3 | 9 | 0 | 0 | 0 | 125,954 |
| Canolbarth | 2015–16 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 307,360 |
| Canolbarth | 2016–17 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 112,959 |
| Canolbarth | 2017–18 | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 | 71,768 |
| Canolbarth | 2018–19 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 12,775 |
| | | | | | | | |
| | **Cyfansymiau** | **164** | **115** | **5** | **45** | **19** | **4,458,558** |
| | | | | | | | |

***Ffigurau pennawd ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy a gwariant blynyddol fesul ardal.***

****noder bod gwariant yn cynnwys elfennau o gyllid yr UE a chyllid lliniaru, yn ogystal â chymorth grant***

## Datblygu ac adrodd yn y dyfodol

Nes bod y data adrodd yn cael ei drawsosod i system gwybodaeth ddaearyddol, ni fydd gwybodaeth am y manteision a gafwyd (h.y. sawl cilomedr o afon sydd wedi cael eu gwella ar gyfer mynediad pysgod / sawl cilomedr o gynefin torlannol sydd wedi cael eu gwella) ar gael.
Fodd bynnag, rydym yn bwriadu dod i gasgliad ac adrodd ar y manteision hyn yn hwyrach yn 2018.

## Casgliad

Mae'n bwysig nodi, er bod y tîm cyflawni ar gyfer y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy yn fach (4.5 swydd gyfwerth ag amser llawn), mae'r cyfraniad y mae'n ei wneud at dargedau a rennir Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sylweddol.

Mae gwelliannau i lwybrau pysgod a chynefinoedd torlannol a gwelliannau i ansawdd dŵr yn cyfrannu at y gwaith o wella cyrff dŵr er mwyn iddynt gyrraedd statws ecolegol da.

Ni fydd yn bosibl llawn werthfawrogi'r cyfraniad hwn, na'i ystyried wrth ochr perfformiad cyrff dŵr ledled Cymru, nes y bydd yr offeryn adrodd system gwybodaeth ddaearyddol wedi cael ei ddiweddaru. Mae hyn yn ddarn o waith pwysig a fydd yn cael ei gwblhau unwaith eto yn 2018.

Mae'n debyg mai cysylltedd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau o bysgod ymfudo yw'r ffactor pwysicaf sy'n cyfrannu at boblogaethau pysgod cynaliadwy yng Nghymru a pherfformiad ecolegol da ein hafonydd a'n nentydd. Mae tîm rhithwir y Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy yn parhau i weithio i gyflawni'r prosiectau datblygu strategol pwysig hyn a diogelu poblogaethau pysgod yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gwneud hynny mewn partneriaeth â llawer o bartïon â diddordeb, yn enwedig yr ymddiriedolaethau afonydd yng Nghymru.